

## “Y cymeriad ar dudalen 29”

“... yn ôl arfaeth yr hwn sy'n gweithredu pob peth yn ôl ei fwriad a'i ewylllys ei hun.” (adn.11)

### Beth am ddarllen Effesiaid 1:11–23 ac yna myfyrio

Afrealistig ydy meddwl y gallwn ni wneud synnwyr o'n bywydau ar hyd bob cam o'r ffordd. Ond dydy hynny ddim yn golygu nad oes synnwyr i'w gael. Wrth imi godi nofel i'w darllen o dro i dro, fe fyddaf yn cael fy nal gymaint gan y plot nes fy mod yn cael fy hun yn cynnal sgwrs ddychmygol gydag un o'r cymeriadau a allai fod yn ymddangos yn fuan yn y llyfr (tudalen 29, dyweder), ac yn dweud wrtho ef neu hi: “Rwy'ti mewn dipyn o drafferth ar hyn o bryd, ac ys gwn i sut mae dy grëwr di am dy gael di allan o hyn.” Yna, wrth imi ddarllen ymlaen a gweld sut mae'r awdur, llawer iawn ymhellach ymlaen, yn achub y cymeriad o'i drybini ac yn troi'r holl sefyllfa ar ei phen, rwy'n mynd yn ôl yn fy nychymyg at y cymeriad ar dudalen 29 ac yn dweud: “Dyna ti, roeddet ti'n poeni heb fod angen on'd oeddet? Doedd pethau ddim yn gwneud synnwyr ar y pryd ond roeddet ti mewn dwylo da ... roedd dy grëwr wedi cynllunio'r ffordd allan ar dy gyfer yn barod.”

Fyddai'r cymeriad ar dudalen 29, petai wedi gallu f'ateb yn ôl, ddim wedi gallu gwneud synnwyr o'r hyn oedd yn digwydd y pryd hwnnw am nad oedd ef neu hi yn ymwybodol ar y pryd bod stori fwy yn cael ei hysgrifennu. Mae bywyd yn debyg iawn i hyn gyda llawer o bethau'n digwydd nad ydyn nhw'n gwneud synnwyr. Beth sydd gen i i'w ddweud wrthyt ti felly? Hyn: *dwy'ti ddim ond ar dudalen 29*. Cwyd dy galon; ymhellach ymlaen ar y daith, mae'r Awdur Dwyfol yn mynd i ddangos arwyddocâd yr hyn sy'n digwydd iti. Y peth pwysig rwan ydy dy fod yn ymddiried yn yr awdur ac yn chwarae dy ran yn dda. Gall hynny fod yn golygu helpu person arall, peidio gadael eraill i lawr, dangos cariad er nad wyt ti'n teimlo felly. Rwy'ti'n rhan o stori ac mae'r hyn rwy'ti'n ei wneud yn cyfrif, yn dragwyddol.

### Beth am fynd ymlaen i ddarllen:

Eseia 55:6–9;

Jer. 29:11–13;

1 Thes. 4:14–18

### Meddyliwch am y cwestiynau hyn:

1. Beth wyddom ni am fwriadau Duw ar ein cyfer?
2. Pa gamau allwn ni eu cymryd pan na wyddom beth ydy bwriadau Duw?

**Gweddï** O Dad, helpa fi i ymddiried yn dy gynlluniau di pan nad oes gennyf fi gynlluniau fy hun. Rwy'n gweddïo ar iti f'atgoffa i fod pethau'n gweithio yn ôl y bwriad, dy fwriadau di, nid fy mwriadau i. Yn enw Iesu rwy'n gofyn hyn. Amen.